Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xl. HYDREF, 1940 Rhif 10.

Hanes Capel Galltyplaca.

[*Papur a ddarllenwyd gan y* Parch. T. O. Williams, M.A., *yng Nghyrddau Dathlu Dau Canmlwyddiant Galltyplaca, Medi 18, 1940.*]

Annwyl Gyfeillion,—Y mae'n dda gennyf fod yn y Cwrdd Dathlu yma, ac yr wyf wedi cael esboniad ar lawer peth. Rwy'n deall heddiw na fedrwn i ddim bod yn weinidog yma. Y mae f'ysbryd yn rhy aflonydd i'w glymu gan unrhyw Drust-deed, ond y mae'n rhaid i Mr. Bowen fod yn Undodwr—

> " The trustees etc. . . . admit, permit and suffer such a minister or Ministers only to officiate and administer the ordinances of religion in the said chapel or Meeting House as shall profess, preach, exercise and embrace the tenets or principles of Unitarianism . . . "

Ar waethaf ei hanes a'i draddodiad, capel Undodaidd o 1837—o godi y capel presennol—yw Galltyplaca, ac nid oes yma gais am an open trust oherwydd dywedir, " for a place for the worship of almighty god by that denomination of protestant dissenters who call themselves unitarians ". Tybed pe bae rhywrai am achosi trwbwl, y medrech chwi sydd yma heddiw yn addoli Duw brofi eich bod yn Undodiaid wrth safon Undodiaeth 1837 ?

Fe fynn rhai gredu fod popeth yn mynd o ddrwg i waeth—fod hyd yn oed y Cyrddau Blynyddol ddim cystal a rhai slawer dydd, ac wedi darllen Hen Lyfr Cownt y Capel yr wyf yn rhyw hanner eu credu. Yr wyf wedi bod mewn llawer Cwrdd Blynyddol ond fe garwn fod yn y Cyrddau yng Ngalltyplaca ym mis Mehefin 1871 oherwydd ceir cofnod fel hwn " Sept. 15 1871 . . . To cash paid to D. E. Jones Railway House for ale last June for the Yearly Meeting 12/- . . . " 'Doedd ryfedd yn y byd fod yr hen bregethwyr yn medru pregethu a mynd i hwyl. 'Rwy'n credu y gwnawn innau'n well dan yr un manteision . . .

Chware teg iddynt. Yr oedd yn rhaid cynhilo wedyn yn rhyw ffordd neu gilydd. 1873 : To cash paid Margaret Davies Ffinant Arms for one year opening and cleaning chapel—10/-," a chredid bod hynyna'n ddigon heb iddi gael proffid y Cwrw, neu pam yr awd i'r Railway House a Ffinant Arms yn ymyl.

Yr oech yma'n ddemocrataidd anghyffredin. Yr oech mor sosialaidd a'r Sofied yn Rwsia. Dyma geir yn y Llyfr Cownt :—

" To paid Timothy Davies, Plâs for 1 day work at stable —1/6
To paid D. Davies Student .. .. .. —1/6
To paid T. Lloyd Jones Student .. .. —1/-

Dwn i ddim faint o bregethwr oedd T. Lloyd Jones ym more'i oes, ond credaf ei fod yn sicr wedi rhoi i chwi werth yr arian. Y mae yn rhyfedd nad oedd yn werth gŵr y Plâs wrth helpu'r stabl.

Fe rydd y manion hyn olwg newydd ar bobl yr oes o'r blaen. Credaf yr ystyrient fod y pregethwyr oedd yn pregethu aberth i aberthu. " Practise what you preach " oedd yr arwyddair. Peth arall. Ni chredaf bod eisiau bod yn rhy fanwl gyda'r hanes. Fe ddwedais mewn anwybodaeth rywbryd yn yr Ymofynnydd o goelio Dr. Davies, Ffrwdyfâl fod Capel Galltyplaca wedi'i godi ar dir Galltyplaca neu'r Lôn. Er bod llawer ohonoch wedi'ch geni a'ch magu yma, ac yn cerdded yma bob Sul ni ddwedodd neb mai yng Nghaelax ar dir Ffinant-ganol y saif y capel presennol. Nid oes ond clawdd y fynwent yn sefyll ar dir y Lôn. Ar y llyfr Cownt fe geir cofnod fel hwn :—

" This is to certify that I give and biquath for ever for the use etc of the congregation of Alltyplaca the hedge between the churchyard of the said chapel and Lôn Farm being six perches . . .
John Griffiths
Jan. 30 1846 Witness : Evan Griffiths.

Yr wyf yn falch o'r nodyn oherwydd ni wn pam y symudwyd y capel o'i hen nyth ar dir y Lôn. A oedd y lle yn rhy fach? Ni ddengys y ffaith iddynt roi y clawdd am ddim eu bod yn gul er mai Bedyddwyr oedd y Griffisiaid, ac yn Nolgrogws wedi ymbriodi â merch Siop New Inn y daeth Evan Griffiths drosodd, ond odid, a gorwedd ei weddillion ym mynwent Capel Llwyn-rhydowen. Ond dyna ddigon o drimming—rhaid mynd at yr *Hanes*.

Y mae'n ddiddorol cydio 1740 a 1940 gan bontio dwy ganrif. Yn 1740 pregethid Penarglwyddiaeth Duw. " Edrychid ar Dduw fel Ymerawdwr a'i ewyllys fel prifachos ei weithgarwch—ei amcan terfynol oedd ei ogoniant ef ei hun . . . "

Pwysleisid y wedd hon gan y Mudiad Methodistaidd o Langeitho, a chwalwyd yr hen gynulleidfaoedd cymysg hwnt ac yma . . .

Protest yn erbyn y syniad hwn o Dduw fel Unben (Dictator) yn rhagarfaethu—yn ethol—yn gwrthod pob un, nid oherwydd unrhyw deilyngdod neu arall, ond yn unol a'i ewyllys ef ei hun ydoedd ein mudiad. Ys dywedai Burns, bardd yr Alban,—

> " Wha as it pleases best thysel'
> Sends one to heaven and ten to hell " . . .

Dyna fel yr oedd yn 1740—rhyw nifer bach yn protestio yn erbyn edrych ar Dduw'r Tad fel unben neu ddictator. Credent yn well am Dduw oherwydd deffro ynddynt syniad gwell am ddyn. Heddiw yn 1940 y mae y syniad o Unben neu Ddictator yn uchel ei ben. Y mae yna *rywun* yn gyrru miloedd drwy uffern er mwyn ei ogoniant ef ei hun, ac ni fedrwn ni lai na phrotestio heddiw fel cynt, a phrotestio yn llawer mwy croyw am wneud dyn, os teilwng o'r enw, yn *Unben*, a ninnau wedi protestio yn erbyn cais dyn i wneud Unben o Dduw. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Beth bynnag am hynyna, fe brotestiwyd gynt, a gwŷr y brotest oedd aelodau cyntaf Galltyplaca. Ni wn pam y'i sefydlwyd yma rhagor rhyw fan arall. Hwyrach fod y dadleuon a'r ymrannu ymhlith y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi oherwydd pregethu Abel Francis a ymadawodd ag Aberduar am Lwynrhydowen (1735) wedi golymu meddwl yr ardal, ac nid oes dim fel dadl i roi min ar y deall. Hwyrach fod cysgod Llanfechan a theulu'r Lloydiaid dros y fintai fach er mwyn y teulu, pwy ŵyr? Y mae'n werth cofio nâd oedd y cynulleidfaoedd bore ond dilynwyr rhyw feddwl mawr a osododd ei stamp ar feddwl ardal a'i oes.

Codwyd y capel cyntaf yma'n 1740, ac ofnaf fod George Eyre Evans wedi cymysgu Galltyplaca a'r Llwyn drwy sôn am adeilad " near finish'd " yn 1754. Yn yr hen gapel bach tô gwellt yr addolodd y teidiau dan 1837, pan symudwyd y babell dros y ffin gan ei droi yntau'n dai annedd. Sefydlwyd yr achos gan Jenkin Jones, un o ddiwygwyr mawr ei oes—gŵr a gyfieithodd feddwl Armin i galon gwerinwyr Sir Aberteifi. " Before his death in 1742 he had had the satisfaction of planting an infant church at Alltyplacca . . . "

Ni ordeiniwyd David Lloyd tan 1745, er ei fod hwyrach yn pregethu cyn hyn, ond dylasem gofio ei eni yn 1724. Pe bawn i yn cael rhoi barn, dywedwn na anwyd neb mwy yn Llanwenog na David Lloyd—a hannai o hen arglwyddi Castellhywel ac a briododd ferch plâs Llanfechan—ac yr oedd Mrs. Lloyd, Llanfechan yn y Cyrddau Ordeinio, ac ymhen amser clywir am ei merch—" Lettice was become a Presbyterian . . . " Yr oedd hynyna'n ddigon drwg ond yr oedd gwaeth i ddilyn—priododd y gweinidog.

"No assistance was given to those obscure and distant thinkers; they had to defray the expenses of their establishment with little help from any quarter, being aided principally by the family of their minister, which may be said to have at all times borne the burden and heat of the day. . . . The whole country was in hostility to them except some of the clergy and gentry of the Church of England . . ."

Ychydig a wyddom o hanes y gynulleidfa ifanc dro.

Yn 1772 cyflwynwyd i'r senedd *A Relief Bill* i ryddhau'r Anghydffurfwyr o'r gorfod a oedd arnynt i arwyddnodi'r Deugain erthygl namyn un, ac er mwyn cryfhau'r ddadl gyrrwyd erfyniadau drosto gan gannoedd o gynulleidfaoedd. Dyna ond odid yw'r Thompson List 1773. Nid oedd yn Sir Aberteifi yr adeg hon ond 16 gynulleidfa o Anghydffurfwyr, ac yn eu plith ceir Galltyplaca, Llwynrhydowen, Cilgwyn, Cae'ronnen, a Chilie; ond dim ond pedwar gweinidog yn y sir a brotestiodd—David Lloyd, David Davis, David Griffiths a David Evans, Llechryd.

Dan 1767 ceir yn un o lythyrau Lloyd sôn am gasgliad yma,—

"The members and Hearers at Galltyplacca and Llwynrhydowen lately made a new collection among themselves to discharge ye arrears of ye New Meeting-house, which amounted to upwards £40." Chware teg iddynt.

Nid fy maes i yw sôn am syniadau'r gynulleidfa fach na'i gweinidog, ond neithiwr darllenais grynhodeb anghyflawn o bregethau David Lloyd tua 1759 a geir yn niwedd Dyddiadur Timothy Davies yn y Llyfrgell Genedlaethol. Fe'u hysgrifenwyd gan hen wr o Bencarreg. Nid oedd y diweddar Gwili a minnau yn unfarn arnynt, ond fe gofiwn i am frawddeg arall o eiddo Lloyd a groniclir, a honno wedi'i chymryd o bregeth a bregethodd yng Nghoedpark —a dyma a ddywedodd :—

"*Y gallasai Judas fod yn y Nefoedd onibuasai ei fai ef ei hun . . .*"

Yr wyf i o'r un farn ag ef. Great minds think alike . . . ar dro!

Wedi colli meddwl miniog David Lloyd, a cherdded yn arafach dan weinidogaeth efengylaidd David Davis, daeth anesmwythyd i'r eglwys, ac yn 1802 ymadawodd rhyw bump aelod—dyma ddechreu Capel-y-Groes. Yn 1819 ceisiodd y Parch. George Harris ffurfio rhestr o Eglwysi Undodaidd, ond am reswm da ni cheir Galltyplaca arni; nid oedd yn Undodaidd. Erbyn 1830 fe geir tro ar fyd, oherwydd ar restr "*An Early Census of Unitarian Congregations and Worshippers* circa 1830 ceir :—

"ALLTYPLACCA : John Davies and David Evans, 200-300; 100 communicants."

Erbyn 1837, yr oedd y les gyntaf a roddwyd gan Griffiths o Alltyplaca am 99 o flynyddoedd yn dirwyn i ben, ac am ryw reswm neu gilydd symudwyd y babell dros y ffin i Gaelax ar dir Ffinantganol—a dyma'r capel hwn.

" Lease of a plot of ground for the erection of a meeting-house in the parish of Llanwenog in the County of Cardigan and also a burrying ground to be thereto attached. Term 999 years. Yearly rent 4/-."

" This indenture made the sixth day of July 1837 between Griffith Jones of Ffinantganol Llanwenog Cardigan gentleman and Thomas Lewis of Ffinant Arms (tadcu Mrs. Evans, Cwmiago) in the said parish of Llanwnen victualler David Jones Felinraber miller (tadcu'r Parch. David Evans, Cwmiago) ; James Jones of the Factory Llanybyther and John Jones Clunrhelig in the parish of Llanwenog farmer . . . "

Erbyn 1846 yr oedd Thomas Lewis wedi symud i Gross Inn, a cheir rhyw Ddavid Jones ym Mlaencruiser (tadcu Misses Evans, Llwynfedw), Thomas Miles Drefach, Rees Evans Llanfechan, David Lloyd Cwmrhendryd a Griffith Rees, Castell, Llanwenog.

Ni chofrestrwyd y lês yn Llundain dan 1876 oherwydd rhyw amryfusedd. O 1740 dan 1853 gweinidogion y Llwyn oedd gweinidogion Galltyplaca, megis Jenkin Jones—Yr Armin Cyntaf—David Lloyd *Yr Ariad* o feddwl bywiog, David Davis Castellhywel, yr ysgolfeistr penigamp.

Wedi marw Dafis Castellhywel, gwasanaethwyd gan y Parchn. William Rees a John Davis Castellnewydd, a phan ymadawodd William Rees am Gwmwrdu, daeth y Parch. David Evans i gynorthwyo John Davies. Yn 1853 symudodd David Evans i Hendy'r dole, a thorrwyd cysylltiad Galltyplaca a'r Llwyn. Fe geir sôn hefyd yn y Llyfr Cownt am y Parch. T. Griffiths ac Arthur Williams yn cynorthwyo. Yr oedd Griffiths yn weinidog y Cribin er 1822 ond symudodd y teulu i'r Amerig yn 1841 a chollir Griffiths dan iddo ddod i fugeilio Cae'ronnen yn 1846-1851. Ar ei ôl ef daeth David Evans i ofalu am Gaeronnen a Galltyplaca.

Ar yr hen Lyfr Cownt y ceir copi o alwad y Parch. John Davies, Tancoed,—

" At y Parch. John Davies Tancoed Llanwenog.

" Yr ydym ni, pa rai sydd wedi llaw-nodi isod yn enw y gynnulleidfa Undodaidd ymgynulledig yn nghapel Alltyplacca yn cyduno ac yn eich penu i'r gwasanaeth fel Athraw a Gweinidog ar yr Eglwys ymneilltuedig yn y lle crybwylledig uchod.

Gorphenaf 31, 1864

1864

David Rees Eurfaen Hall (late Caedabowen) Lampeter

Rees Evans Llanfechan Llanwenog . . . "

Y mae pawb ohonoch ond odid yn cofio gweinidogaeth faith y Parch. John Davies—y pregethwr mawr a'r gweddïwr mwy—y gŵr a gadwodd ei barch i'r diwedd. Clywais ef yn dweyd na addawyd iddo gyflog fawr i ddechreu. Yr oedd yr arian yn brin yr adeg honno. Yn 1858 casglwyd at y weinidogaeth £8/12/6, yn 1861 £6/13/0, yn 1868 £12/2/6 ; erbyn 1888 yr oedd yn £22/3/0, yn 1914 £35/2/0, gyda nifer yr aelodau unwaith dros gant ond weithian heb fod drichwarter hynny.

Y mae un peth i'w ddweyd, y mae mynwent yma o ddechreu'r Capel hwn yn 1837 oherwydd o ddarllen y meini ceir tri o leiaf wedi'u claddu yn 1837—John Evans Gwarallt Ebrill 14 1837 yn 40 oed ; Jenkin Davies Tynllyn Llanwnen Mehefin 1 1837 yn 27 mlwydd oed ; a Simon David Hugh Drefach Llanwnen Gor. 29 1837 yn 81 mlwydd oed. Yr wyf am i chwi sylwi fod y gŵr cyntaf wedi'i gladdu yma ym mis Ebrill ond ni phrynwyd y tir dan fis Gorffennaf. Tybed nad oedd y gynulleidfa wedi paratoi mynwent yn ymyl y capel, a phan redodd y lês i ben, iddi godi'r capel newydd yn y fynwent. Nid yw ond awgrym cynnil am na wn i am ei well, dyna i gyd.

Fe garwn i fedru manylu ond nid oes amser. Y mae rhestr aelodau 1840 yn ddiddorol anghyffredin er dangos eu bod yn dod yma o bedwar ban yr ardaloedd megis Pantyronnen, Brynllo, Cefnrhuddlan, Cadabwen, Tanyfron, Cwmanne, Brynneuisaf, Corsyfran, Felinban, Dolwenfach, Beilicoch, Brongest, Llechwedd, Ffosffald, Tynllyn, Pentreshon, Llanvaughan, Pantyrhwch, Pentre-Rees, Tydwgi, Cornicyll, Blaenholiw, Ffosgoy, Blaencwrt, Rhydie a mannau eraill. Y mae yn y rhestr un broblem na fedraf i mo'i solfio. Fe geir cofnod fel hwn :—

" Deacons : Josiah Jones Ddolwen a Daniel Evans Lowtre . . . "

Yr wyf yn deall hynyna'n burion, ond ar eu hôl y ceir,—

" Benjamin Jones Aber Mill ; elder . . . "

Y mae'r gair *elder* yna wedi peri llawer holi ynof. Tybed fod rhyw gymaint o'r drefn Bresbyteraidd wedi aros yng Ngalltyplaca, ynteu nid ydoedd ond ffashwn. Ni wn i.

Y mae llawer tro ar fyd o'r dydd hwnnw y pregethodd Jenkin Jones yma'r waith gyntaf. Bu yna gyfnodau disglair yn ei hanes ar hyd y blynyddoedd o'r adeg y clywid David Lloyd yn pregethu yma i dair mil o gynulleidfa ac yn cael ei glywed ym Mhentre Pencarreg—hyd y dydd hwn, i fintai lai o lawer.

Fe garwn sôn am lawer peth ond yr wyf am fod yn frawdol. Carwn ddarlunio hen gymeriadau'r oes o'r blaen—dweyd gair am yr Ysgol Sul am iddi roi cyfleu i mi arwain Eisteddfod y tro cyntaf erioed dair blynedd ar ddeg ar hugain yn ôl. Dyna oedd dydd y pethau bychain oniде ? Nid oes amser heddiw, ac nid wyf innau wedi babanu digon eto i ddechreu ysgrifennu hunangofiant. Y mae'r golau yn dal ynghynn. Ni ddiffydd Duw y llin sydd yn mygu ac ni ddryllia'r gorsen ysig.

Saif pob capel ac eglwys yn glir a diamwys dros yr anweledig—dros egwyddor—dros ysbryd Crist—dros y dwyfol mewn bywyd bob dydd. Medr pwerau creulon byd ladd a difetha ffordd y cerddont ond cyn wired a bod Duw, credaf cyn y ceir y byd i'w le a heddwch i lifo fel yr afon a chyfiawnder fel tonnau'r môr y bydd raid i Grist ddod yn Arglwydd ar Fywyd Dyn ac ar Fywyd Gwerinoedd Byd.

Y mae capel ac eglwys yn ymgnawdoliad o Ysbryd Crist, ac onid yw gwareiddiad goreu Ewrop i fynd ar ddifancoll, yna rhaid i gapel ac eglwys oleuo traed gwerin ar hyd llwybr uwch at fywyd gwell, ac yn yr ymdrech hon o blaid y goreu ac o blaid Duw y mae i Alltyplaca ei le a'i waith.

Protest ydoedd i ddechreu yn erbyn y syniad o Dduw fel Unben —fel Dictator, ac os ydym yn *drue* i egwyddor, i ddynoliaeth ac i Dduw rhaid i ni ddal i brotestio yn erbyn pob unben a materoliaeth a gwanc—Protestio nes cael corff ac enaid dyn yn rhydd o afael Yr Unben yn yr Almaen a'r unben yng ngweithfeydd a masnach ein gwlad ein hunain.

Yr wyf yn ddigon hen ffashwn i gredu bod dyfodol pob gwlad a phob dyn yn dibynnu ar i Gapeli fel Alltyplacca i dynnu'r galon garreg o gnawd dynoliaeth a rhoi iddi galon newydd.

Un gair i ddiweddu. Meddyliwn neithiwr am Ysbrydoedd David Lloyd a'r fintai gyntaf yn dod yma i ymgomio â ni heddiw, a chofiais am ddrama " *The Thunder Rock* " onid wyf yn camgofio. Darlun yw o Geidwad Goleudy heddiw wedi anobeithio am y byd yn calonogi ysbrydoedd y rhai a anobeithiodd yn 1849, a dyma'i neges a'i galondid,—

> " *If we do the right thing now*, (peace) may come in a generation ;
> *If we do the wrong thing*, it may be a thousand years . . . "

A ydym yn mynd i wneud y *Right thing* yn y rhyfel ac yn yr heddwch? Os ydym, yna y mae dyfodol i bob capel ac i Alltyplaca.

Pererindod Feddyliol y Tadau.

[*Sylwedd araith y* Parch. Simon Jones, B.A. *yng Ngalltyplaca ar Fedi 18, 1940.*]

Fy mhwnc yw datblygiad syniadau crefyddol yng Ngalltyplaca. Golyga hynny bererindod feddyliol y tadau o Drindodiaeth y ddeunawfed ganrif i Undodiaeth yr ugeinfed. Stori hir i'w hadrodd mewn ychydig amser ; rhamant dau can mlynedd mewn rhyw ugain munud, a'r defnyddiau ar adegau'n brin. Ar y gorau ni allaf ond rhoi braslun, lled aneglur a brycheulyd, fel rhyw *first experiments in photography*.

Ymdrechaf beth bynnag i osod ychydig gnawd ar esgyrn sychion diwinyddiaeth y cyfnod a'u gwneud hyd y gallaf yn fyw a deallադwy i bobl gyffredin yr oes hon. Daw'r haneswyr o'r anhawster drwy roddi *labels* ar y gwahanol gyfundrefnau, fel Armin, Ariad, Sosin, etc., gan fflatro eu darllenwyr fod y *labels* yn ddealladwy, ond ofnaf nad ynt heddiw i'r mwyafrif ond *prescriptions* Lladin y meddyg yn egluro ychydig os dim i'r claf o gynnwys y botel. Maddeued y doethion i mi felly am gyfieithu a datgan yn syml yn iaith y dydd gnewllyn y cyfundrefnau a fu, o genhedlaeth i genhedlaeth, yn maethu bywyd ysbrydol y gynulleidfa a longyfarchwn heddiw ar ei dau canmlwydd.

Pan ddarllenir mai Jenkin Jones y Llwyn yw tad Undodiaeth yng Nghymru perigl naturiol i'r digyfarwydd gredu fod Jenkin Jones, onid oedd yn Undodwr ei hun, wedi ymwrthod â Thrindodiaeth. Nid felly yr oedd. Dyma fel y canent fawl yng Ngalltyplaca yn y dyddiau bore.

I'r Tad, i'r Mab, i'r Ysbryd Glân,
I'r tri yn un, i'r tri ar w'an,
O eigion llawr hyd entrych nen
Boed parch a moliant byth. Amen.

Dyna un o emynau* Jenkin Jones.

Trindodiaeth felly a bregethid yma ar y dechrau, a Thrindodiaid oedd yr aelodau, ond Trindodiaid wedi cael gafael yn yr allwedd a agorai'r drws i Grefydd Rydd. Yr allwedd ydoedd y syniad am bosibilrwydd daionus gallu a chyfrifoldeb dyn. Dyna gnewllyn heresi Galltyplaca ar y cychwyn. Dyna hefyd sylfaen Crefydd Rydd. Rhyddhawch bersonoliaeth dyn oddiwrth gredoau sy'n ei lyfetheirio, ac yr ydych yn rhoddi ei draed ar ffordd fawr gwirionedd a datblygiad ysbrydol. Dyna wnaethpwyd yng Ngallt-yplaca ddau can mlynedd yn ôl.

Yn ôl Pum Pwnc Calfin yr oedd dyn yn llwyr lygredig oherwydd pechod Adda. Nid oedd iddo siawns am gadwedigaeth onid etholwyd ef i wynfyd cyn ei eni. Yr oedd Iesu wedi prynu gras i rai ond nid i bawb. Ni allai'r rhai a brynwyd wrthwynebu'r gras na syrthio oddiwrth ras pa bechod bynnag a gyflawnid. Fel hyn y rhedai rhigwm o'r cyfnod,—

Etholedig cyn fy ngeni,
Etholedig wedi meddwi,
Etholedig yn yr arf'eth,
Etholedig trwy bob traffe'th.

Gwrthdystiad yn erbyn y ddysgeidiaeth hon oedd Arminiaeth, ac yr oedd gan yr Arminiaid eu Pum Pwnc eu hunain. Honnent nad oedd gras Duw'n ddiamodol, fod iechydwriaeth i bawb a gredai yng Nghrist hyd y diwedd, fod Crist wedi marw dros bawb,

*Yn 1768 argraffwyd nifer o emynau Jenkin Jones, ac y mae copi amherffaith yn Llyfrgell Rydd Abertawe.

ond dim ond y rhai a gredai ynddo a gai gyfranogi o'r fraint, nad yw dynolryw yn gyfangwbl lygredig oherwydd pechod Adda, mai marwolaeth a drwg naturiol yn unig ydoedd canlyniadau'r ddrama yn Eden, fod gwrthwynebu gweithrediadau gras yn bosibl, fod syrthio oddiwrth ras hefyd yn bosibl, fod gan ddyn allu i gyfranogi, os ewyllysiai, o helaethrwydd darpariadau trugareddau Duw. Dyna blatform yr Arminiaid.

Credai Jenkin Jones mewn uffern, ond honnai, os ai dyn yno, yr ai a'i lygaid yn agored. Credai yn yr Iawn. " Gwaed Iesu yw yr unig aberth sydd . . . wrth fodd ei Dad," medd un o'i emynau. Ond rhaid cael gweithredoedd da er gwneud yr aberth yn effeithiol.

Y dynion da i'r Nef fe'u dwyn ;
Yn Uffern trig y gethern ddrwg.

" Gwŷr y gallu mawr " y gelwid pobl y Llwyn a Galltyplaca mewn gwawd gan eu gwrthwynebwyr.

Mae trwp o adar llawen
Yn nythu'n Llwynrhydowen ;
Maent yn haeru ant yn serth
I'r Nef yn nerth eu hunen.

Ond *libel* oedd hyn ar yr Arminiaid, fel y ceisiais ddangos. Teimlent angen gras a gwaed y Groes yn ogystal a gweithredoedd da a'u nerth eu hunain. Gwir y credent fod gan y dyn ei hun y *casting vote* yn y drefn.

Pob gwan fo am ymdrechu
O dan y baich o bechu
Trwy edifaru,
Gan lwyr ymdrechu
O'i lygredd godi i'r lan,
Ni ad yr Hollalluog
Yn ôl mo'i rywiog ran.*

Yr oedd gan ddyn y gallu i dderbyn a'r gallu i wrthod, ac yr oedd cyfrifoldeb ei iechydwriaeth yn gorwedd ar y dyn ei hunan. Dyma *egwyddor sylfaenol ein mudiad*, ac y mae wedi aros yn egwyddor barhaol yn ein plith, er fod yna adeg yn Undodiaeth ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf pan goleddid mewn rhai cylchoedd y dyb o *reidrwydd—necessarianism* neu *determinism*, fel y geilw y Sais hi heddiw. Coleddwyd y syniad gan Priestley, a John James Gellionnen ar ei ôl, a deuai'n lled agos i ddiddymiad o allu a chyfrifoldeb dyn. Ni bu'r syniad yn un parhaol yn ein mudiad. Nid syniad creadigol (creative) mohonno, ond yr oedd y syniad arall, y gred yng ngallu a chyfrifoldeb dyn, yn agor meysydd helaeth o flaen y rhai a'u coleddai. Aeth pobl Galltyplaca i mewn i'r meysydd hyn.

Ni ddeellais erioed paham yr arhosodd yr Arminiaid Wesleyaidd yn Arminiaid Trindodaidd a phobl Jenkin Jones yn mynd yn eu blaen mewn datblygiad crefyddol. Ond felly y bu.

*Evan Tomos Rhys.

Dywaid un o'n diwinyddion diweddar mai gwasanaeth mawr Iesu i'w oes, ei brif wasanaeth efallai, oedd cymell dynion i ail-feddwl Duw, *to rethink God.* Dyma'r cam nesaf yn natblygiad Crefydd Rydd yng Ngalltyplaca.

Wedi sicrhau rhyw fesur o ryddid i ewyllys a meddwl dyn a sefydlu'r gred yn ei allu i benderfynu pethau crefyddol, naturiol gosod y galluoedd hyn ar waith, a'r pwnc cyntaf yr ymdriniwyd ag ef ydoedd *hanfod a natur Duw.* Daeth yr ail berson yn y Drindod yn ganolbwynt dadl, ac ail-gyfodwyd y dybiaeth y bu Arius ac Athanasius yn dadlau amdani'n yr oesoedd cynnar. Bu'r dybiaeth hon yn britho meddwl Eglwys Loegr am ddwy ganrif neu dair. Haerai'r Ariaid nad oedd y Mab yn ogyfuwch a'r Tad nag o'r un natur. Dalient ei fod cyn ymddangos ohono fel Mab y Saer, ond bu amser *pryd nad oedd,* a chrewyd ef gan y Tad er mwyn iddo ef greu'r cyfanfyd. Dyma emyn Ariaidd :—

Cydunwn blant bychain i ganu
Am Iesu, *Creawdwr* y byd . . .

Yr oedd y Crewr hefyd i fod yn Farnwr yn y Dydd Mawr Diwethaf. Felly yr oedd Iesu'n teilyngu addoliad, er nad oedd ond rhyw hanner Duw ; eto'n hollol wahanol i'r rhelyw o'r ddynoliaeth ; yn Berson ar ei ben ei hun.

Dywaid William James yn un o'i ysgrifau fod John Davies yn honni mewn pregeth fod Ariaeth yn rhedeg drwy'r Testament Newydd yn gyfan. Dyma sylwa Mr. Davies ymhellach, " Beth dâl siarad ; does dim synnwyr ynddi." Credai pobl Galltyplaca'n wahanol yn yr hanner olaf o'r ddeunawfed ganrif.

Dyma ddiwinyddiaeth newydd Dafydd Llwyd :—

Hen Galfin ac Arminiws
Gyrrais draw goris y drws.

Ni olyga hyn fod Llwyd wedi cefnu ar ei Arminiaeth. Dywaid ei nai, Dr. Chas. Lloyd, y gellid ei alw yn Ariad ac yn Armin. Nid oes yr un anghysondeb yn hyn. Gellid coleddu Arminiaeth gyda golwg ar ras Duw a chyflwr dyn a bod yn Ariad ar y cwestiwn o Berson Crist.

Yr un neges, medd yr haneswyr, a gyhoeddwyd gan ei gynorthwywr a'i ganlynydd, Dafydd Dafis Castellhywel. Dywedant mai Ariad ydoedd yntau, ond gan fod mwy nag un math o Ariad ni fentraf amau'r doctoriaid. Er hynny carwn eu holi. Ni ddarllenaf Ariaeth yn ei " Annerch i'r Duwdod "* nac yn ei " Ffarwel i'r Byd a'r Eglwys "* nac yn ei emynau. Gwelaf yma Iesu fel Iechydwr ond nid fel Creawdwr ; rhaghanfod Crist ; ail-ddyfodiad Iesu yn Farnwr, ond y mae'r Barnwr hefyd yn Eiriolwr ac yn Geidwad.

---

* *Telyn Dewi.*

Y mae rhywbeth yn awgrymiadol yn hoffter Dafis o alw y Mab yn Iesu yn fwy na Christ.

Trwy ras amlygwyd im' gan Iesu
'Rwy'n disgwyl cael fy llwyr waredu :
Dyma'r noddfa lle gwahoddwn
Fy ngwrandawyr pan bregethwn.

Methaf rywfodd a gweld fod un o'r *labels* yn ffitio'r "hen Ddafis." Y mae *eangder* yn ei amgyffred o ddatguddiad Duw.

Natur sodda hyd yr eigion
Gan Fawrhydi'r Enw mawr.

Ac y mae nodau mor dyner yn y "Delyn" :—

Duw fel *ffrind* :—

Helaethrwydd serch y Tad.

Ei *diriondeb* :—

Pan y gwelwyf dy ddaioni
I bob un o ddynolryw
Credaf darddu ein ceryddon
O ddiwaelod gariad Duw.

Pwysleisiai bethau sylfaenol crefydd heb hidio llawer am y pethau dadleugar. Gwrandewch arno yn ei Ragymadrodd i'w gyfieithiad o draethawd* Scougal *Bywyd Duw yn Enaid Dyn*, lle yr honna

"... nad yw gwir Grist'nogion yn amrywio ond mewn pethau amgylchiadol a dadleugar, mewn pethau tywyll ag na chyflawn ddatguddiwyd, neu mewn geiriau neu ddull o lafaru : ond eu bod oll yn cytuno yn sylfaen, sylwedd, grym, bywyd ac ysbryd crefydd, gan eu bod oll yn cyd-daro yn eu profiad o waith gras a'r dduwiol anian yn yr enaid, fel edifeirwch am bechod a chasineb ato, ffydd yng Nghrist ac ymostyngiad iddo, cariad at Dduw, hyfrydwch mewn cymdeithas ag ef, a hollol ymgyflwyniad iddo, ynghyd a thaer ymestyniad awyddus am ddyfod yn fwy fwy cyfrannog o'i sancteiddrwydd a'i ffafr a'i wynfydedigrwydd ef."

Dyma bethau sylfaenol crefydd, yn ôl Dafis, ac yn wir arosant yn bethau sylfaenol heddiw, er amrywio o'u mynegiant "mewn geiriau neu ddull o lafaru."

---

*Y mae nodiadau hanesyddol o gryn bwysigrwydd yn rhagymadrodd D.D. i'r cyfieithiad hwn. Er enghraifft. "Rhag i mi fethu drwy ddiffyg medr mi gefais gan fy nghyfaill dysgedig Mr. Dafydd Lloyd . . . adolygu, diwallu, diwygio y rhan gyntaf, yr hyn oedd y gwaith diweddaf a wnaeth ef er lles i'r byd ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth." Y mae nodyn ar waelod y ddalen yn darllen "Mr. Dafydd Lloyd a'r hwn y bu'r cyfieuthydd yn cyd-lafurio dros ddeng mlynedd, a farw y pedwarydd o Chwefror, 1779, yn 54 oed, wedi bod rhwng 36 a 37 yn y weinidogaeth yn Llwyn-rhyd-owen a Phen-rhiw, 22 yng Nghallt-y-Placca, a 9 yng Nghilie."

Pwy a fu'n gweinidogaethu yng Nghalltyplaca am y pedair blynedd ar ddeg cyn dyfod Dafydd Lloyd? [S.J.]

Os bodlonai Davis adael y " pethau tywyll na chyflawn ddatguddiwyd " yn llonydd, deisyfai ereill am oleuni a mwy o ddatguddiad, ac yn eu plith yr oedd rhai o'i aelodau yng Ngalltyplaca.

Y cam nesaf yn neges y tadau yw'r datguddiad o Undod Duw a dynoliaeth seml Iesu Grist. Aelod yng Ngalltyplaca oedd apostol cyntaf y genadwri hon yng Nghymru. Pasiodd yr enwog Dr. Priestley yn ei bererindod o Drindodiaeth drwy Arminiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth cyn cyrraedd Undodiaeth. Ni wn i a fu yna Sosiniaid Cymreig o gwbl. Llysenwid yr Undodiaid felly, y mae'n wir. Gwelais nodyn gan fy nhad-yng-nghyfraith* (y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr) i'r perwyl hyn :—

> " Mae pob Sosin yn Undodwr, ond nid yw pob Undodwr yn Sosin. Cred y Sosin yn Undod personol y Duwdod, a bod Iesu Grist yn ddyn, ac eto'n wrthrych addoliad crefyddol."

Nid Sosiniaid felly oedd Tomos Glyn Cothi† a John James Gellionnen, er y gelwid hwy yn Sosiniaid gan eu gwrthwynebwyr. Gosodent fel eu " pwngc sylfaenol " mai'r " Bod Goruchaf yw'r unig wrthrych teilwng o addoliad crefyddol " ac edrychent arnynt eu hunain fel " dan rwymau anhepgorol, hyd yn oed, i beidio *arfer* cyduno yn y weithred o addoliad dwyfol " gyda'r rhai a oedd yn talu gwasanaeth crefyddol i neb pa mor ddyrchafedig bynnag y byddo ond yn unig i Dduw a Thad pawb oll. Ystyrient yn ddyletswydd i " ymneilltuo " oddiwrth y bobl hyn " ond mewn modd heddychol."

Yn ei *Ddatganiad Ffydd*‡ dywaid Tomos Glyn Cothi :—

> " Yr wyf yn cael fy argyhoeddi oddiar ymofyniad diduedd o feddwl y Testament Newydd mai crediniaeth gadarn yn un Duw ac yn Iesu Grist fel mab a chennad Duw yw y briodol grediniaeth Apostolaidd . . . ac mae ymgais gwirioneddol i drefnu y fuchedd yn unol a rheolau yr Efengyl yw'r maen prawf o'r grediniaeth hon. Yr wyf yn meddwl gan hynny nad oes un hawl gan neb i feddwl am ddim ychwaneg na'r gyffes fer hon o ffydd oddiwrth weinidog Cristnogol."

Gan fod llawer o gamddeall ymhlith ei gyd-weinidogion y mae'n barod i ychwanegu :—

> " Yr wyf yn credu ar dystiolaeth yr Ysgrythurau mai dyn oedd Iesu Grist megis ninnau, yn feddiannol ar yr un natur a'r lleill o ddynolryw, yn gwahaniaethu yn unig trwy y gallu a'r anrhydedd hynod a gafodd ei roddi (iddo) fel anfonedig oddiwrth Dduw a thrwy ei rinwedd a'i dduwioldeb rhagorol ef ei hun."

---

*I'r hwn yr wyf yn ddyledus am lawer awgrym arall yn yr araith hon. [S.J.]

†" Apostol mawr Pen Pistyll."

‡*Datganiad Ffydd*, a gafodd ei thraethu yn gyhoeddus, ger bron Gweinidogion ac ereill, gerllaw y Gwernogau, yn Sir Gaerfyrddin, Medi 11, 1794. Gan T. Evans.

Dyna Undodiaeth ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Y mae athrawiaeth yr Iawn wedi ei thaflu o'r neilltu erbyn hyn. Nid oedd obaith am wynfyd drwy haeddiant neb arall. Cai pob dyn ei farnu am ei weithredoedd ei hun. Diben danfon Iesu i'r byd ydoedd tywys dynolryw i'r dedwyddwch mwyaf gwirioneddol trwy ymarfer y rhinweddau mwyaf pur. *Commercial view* o gred yr Undodwr oedd " Un Duw ac ugain swllt yn y bunt." Dywedai John James fod gan Dduw ei etholedigion, ond etholwyd hwy nid i wae neu wynfyd ond i ryw wasanaeth arbennig fel y byddo pawb yn berffaith ac yn ddedwydd. Erys cospedigaeth y pechadur yn y ddiwinyddiaeth newydd, ond cosp er edifeirwch ydyw, ac nid yw'n anfesurol na thragwyddol. " Un Duw, a hwnnw yn Dad, a chariad yn ei waelod "—dyna efengyl John James.

Mewn cariad mae'n rhoi cerydd,
Mewn cariad mae'n rhoi hedd,
Mewn cariad bydd yn cospi
Mewn byd tu draw i'r bedd.

Tebyg na chlywyd yr efengyl Undodaidd yng Ngalltyplaca oddieithr yn achlysurol cyn marw yr " hen Ddafis," ond dyma genadwri ei ddilynwyr. Gyda llaw nid oes llawer o sôn am gosp na disgyblaeth yn ein hefengyl o gariad Duw heddiw. Daeth rhyw *flabbiness* moesol i mewn rywfodd er dirywiad y ffydd. Ond os oedd y tadau Undodaidd yn ddoethach yn eu ffydd yn Nhadoldeb Duw, dalient lawer o hen syniadau cyfeiliornus nad oeddynt yn gyson â'r gredo hon. Nithio'r us oddiwrth y gwenith a fu gwaith y ganrif ddiwethaf.

Credai'r tadau yn y cenhedliad gwyrthiol, yn adgyfodiad y corff, yn ail-ddyfodiad Crist, yn Nydd mawr y Farn, yn Uffern, ac yng ngwirionedd a thystiolaeth gwyrthiau Iesu Grist. Dyma'r cwestiynau dadlau yn y cynadleddau ac yn Yr Ymofynnydd yn hanner olaf y ganrif. Araf y dilewyd rhai ohonynt o gyffes ein ffydd, a bu rhai ohonynt fyw yn fwy hir ym mhulpud Galltyplaca na'r un o'r pulpudau ereill, gan mai pwyllog ac efengylaidd a fu gweinyddu'r Gair yma o ddyddiau Dafis Castellhywel.

Cofiaf am John Davies yn fy ngheryddu'n dyner a chariadus un Sul ar ein ffordd o Gapel y Bryn i Sychbant, pan oeddwn yn fyfyriwr yn y Coleg, am imi anturio amau'r gwyrthiau'n fy mhregeth. Ond nid yw amau'r gwyrthiau'n peryglu iechydwriaeth neb ohonom heddiw. Newidiasom brawf-reol ein ffydd.

Undodiaid Ysgrythurol oedd yr Undodiaid bore. Trwy ddyfynu testunau y profent eu pwnc. Gair Duw yn y Beibl yn cael ei ddehonglu gan reswm dyn oedd y safon. Tystiolaeth yr Ysgrythur oedd y gair olaf ar bob tybiaeth.

Trwy ddylanwad Dr. James Martineau y cymrwyd y cam arall yn natblygiad ein ffydd. Newidiodd Martineau yr awdurdod

terfynol ar bynciau crefydd. Gwelodd nas gorweddai mewn credo, na llyfr, nac eglwys, na phâb, ond yn enaid dyn fel y dehonglir dyheadau enaid gan reswm a chydwybod. Hawliai Martineau na pherthynai datguddiad yn hollol i un llyfr na chenedl. Hawliai fod Duw drwy'r oesoedd wedi ei amlygu ei hun yn Natur, ym mhrofiad y ddynoliaeth, ac yn hanes pob cenedl sydd wedi ymroi am oleuni a daioni. Y mae maes datguddiad felly mor eang a dyheadau a deall dynolryw, ac y mae'r profion o bethau sylweddol crefydd yn gorwedd yn ddwfn yng nghuddiedig ddyn y galon. Felly, os collir y llyfr fe gedwir y ffydd. Dyma'r graig y ceisia Martineau adeiladu arni Eglwys Rydd y dyfodol, a daeth ein heglwysi i gerdded dan ei faner. Tadolaeth Duw, dyndod a blaenoriaeth Iesu, brawdoldeb dyn, iechydwriaeth drwy weithredoedd da a phersonoliaeth goeth—y mae'r pethau hyn yn aros.

Tuedd y dydd hwyrach yw pwysleisio y brawdoldeb a dyledswyddau Teyrnas Dduw. Caiff gwasanaeth fwy o sylw na gweddi, er heb weddi ddwys ni ellir gwasanaeth doeth. Ond mewn sylwedd fe saif yr egwyddorion sylfaenol. Yr allwedd a roes Jenkin Jones i ni ddau can mlynedd yn ôl—posibilrwydd daionus gallu a chyfrifoldeb y dyn unigol—a'n galluogodd i ddod i'r man yr ydym. Hon, greda i, a ddichon agor i ni eto ddrysau i Grefydd Rydd y dyfodol.

Edrychaf yn ôl heddiw gyda balchter a diolch ar yr etifeddiaeth deg a enillwyd i ni gan y tadau. Y mae chwerwder yr hen frwydro wedi pasio ; y mae teimladau gwell yn ffynu rhwng yr enwadau. Nid yw'r dadleuon mor frwd am fod y goleuni'n fwy clir, a chredaf fod hyn yn bosibl am i'r tadau gario'r llusern mor ffyddlon a diofn. Taflwyd llawer hen syniad o'r neilltu—y scaffaldau oeddynt, yn ein helpu i godi Teml yr Ysbryd—ac o'u symud daw'n amlwg odidowgrwydd y Deml, a'i ffenestri'n agored i'r goleuni o bob cyfeiriad. Wrth edrych yn ôl edrychwn hefyd ymlaen, fel y Tadau Pererinol, mewn llawn gobaith ffydd fod mwy o oleuni eto i ddisgleirio ar ddatguddiadau Duw.

" Blodeued achos crefydd,
Gwir grefydd, yn y fro,"

fel yr el y fechan yn fil a'r wan yn genedl gref.

" Mawr mewn gwirionedd," meddai Gwilym Marles, wrth osod carreg sylfaen y capel newydd, " fydd pob cynulleidfa, tlawd neu gyfoethog, yn ôl mesur ei ffyddlondeb i egwyddorion uchel, ei hufudddod i lais dyledswydd amlwg, ei gwroldeb i faentumio iawnderau naturiol a thragwyddol dyn, ei sêl i gyhoeddi'r genadwri a roes Duw iddi ei thraethu ". Duw a ganiatao i gynulleidfa Galltyplaca fod yn fawr yn y pethau hyn.

Y mae'r eglwys yn hen ; bydded iddi fod fyth yn ieuanc dros Ryddid, Gwirionedd, a Chrefydd Iesu Grist.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

I'R DOSBARTHAU HYNAF.

[Trefnwyd gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Gellionnen.]

Hagai i. 15b.—ii. 9.

Gwroli'r Adeiladwyr. Pregeth Medi-Hydref 520 c.c.

Am fis bu'r adeiladwyr yn ddiwyd, a dechreuai'r bobl gymharu'r adeilad newydd a'r hen. Eu gwangalonni a wnai'r gymhariaeth. Nid oedd ganddynt yr adnoddau na'r cyfoeth i godi adeilad fel Teml Solomon. Hwyrach y gallai rhai yno edrych yn ôl dros y 66 mlynedd a chofio'r Deml a ddinistriwyd yn 586 c.c. Amcan cenadwri Hagai yw calonogi'r adeiladwyr, a chyfeiria yn awr at aflonyddwch politicaidd yr amser. Gwrthryfelai'r cenhedloedd yn erbyn y Persiaid, a gwelai'r proffwyd yn yr anesmwythyd arwyddion o " ddyddiau gwell " i'r genedl Iddewig a dyfod yr oes Feseiannaidd.

4. *holl bobl y tir.* Gwell darllen *holl bobl y wlad.* Ymadrodd trafferthus i'r esbonwyr am fod iddo fwy nag un ystyr. Yn amser ysgrifennu *Esra* a *Nehemia* (heibio i 200 mlynedd wedi cyfnod Hagai) golygid wrth yr ymadrodd " pobl y wlad " y rhai nad oeddynt o linach Iddewig bur, disgynyddion y rhai nad alltudiwyd i Fabilon, dynion gelyniaethus i'r parti Iddewig cul. Yr ystyr yn *Hagai,* wrth bob tebyg, yw " yr holl bobl."

4, 5. Gadawer allan gymal cyntaf adn. 5. Nodyn ar ymyl dalen a lithrodd i mewn i'r testun gwreiddiol ydyw, ac nis ceir yn y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament. Darllener " Canys yr wyf fi gyda chwi," medd Iafe'r lluoedd, " erys fy ysbryd yn eich mysg ; nac ofnwch."

7. *ysgydwaf.* Cyfeiriad at aflonyddwch politicaidd yr amser.

dymuniant. Yn y cyfieithiad Groeg darllenir " dymunol bethau." Yr un gwreiddyn sydd i'r gair am " gostfawr bethau." Daw costfawr bethau'r cenhedloedd, yr aur a'r arian, i harddu'r Deml newydd.

9. *gogoniant.* Darllener " Mwy fydd gogoniant diwethaf y tŷ hwn na'r cyntaf."

PWNC YMDRAFODAETH.

Beth sy'n creu gogoniant y lle addoli? Crandrwydd adeilad ynte rhywbeth yn ysbryd yr addolwyr?

Hagai ii. 10—19.

Effaith Aflendid. Pregeth Tachwedd-Rhagfyr 520 c.c.

10-14. Cymer y proffwyd ffordd arall i annog y gweithwyr. Gofyn i'r offeiriaid am farn ar bwnc dyrus halogrwydd seremoniol. Cyferfydd teulu i wledda, a chyflwynid peth o gig y wledd i Dduw. Daw dyn o'r wledd a darn o'r cig cysegredig yn ei wisg. Gwna hynny'r wisg yn gysegredig. Ar y ffordd cyffwrdd y wisg â bwyd neu ddiod. A wna'r cyffyrddiad y bwyd neu'r ddiod yn sanctaidd? Etyb yr offeiriaid, Na. Wedyn cyfyd Hagai gwestiwn arall. Pe bai dyn sydd wedi cyffwrdd â chorff marw (peth halog) yn cyffwrdd a bwyd neu ddiod, a wnai hynny'r bwyd neu'r ddiod yn aflan? Etyb yr offeiriaid, Gwna.

Ni wn reswm yr offeiriaid dros ateb fel hyn. Awgrymaf yr ystyriaeth y credent fôd mwy o rym mewn halogrwydd na sancteiddrwydd.

Beth bynnag, dyma'r wers a dynnir gan Hagai. Os yw cyffyrddiad â'r sanctaidd yn llai mewn effaith na'r cyffyrddiad â'r halog, y mae'n amlwg nad yw'r ymdrechion i godi'r Deml eto'n ddigon i wrthweithio dylanwad blynyddoedd yr esgeulustod. Yn dilyn cynnydd mewn sancteiddrwydd bydd cynnydd mewn hawddfyd ; siomedigaeth fu rhan yr Iddewon hyd yn hyn, ond o hyn allan gwelir cyfnewid. Bydd bendithion Duw'n amlwg—y cynhaeaf yn fwy llawn, ac amser gwell yn gyffredinol i'r genedl.

11. *y gyfraith.* Yn gywir, " am gyfarwyddyd."

15-19. Anodd cyfieithu'r adnodau hyn. Anodd gwybod pa faint y gellir ei briodoli i'r proffwyd, a pha faint i'r sawl a groniclodd yr oracl mewn ysgrifen.

> " Ac yn awr meddyliwch, atolwg. Cyn gosod carreg ar garreg yn nheml Iafe, beth amdanoch ? deuid at bentwr o ugain, a byddai deg ; deuid at y gwin-gafn i dynnu hanner can cafnaid, a byddai ugain.
>
> ' Trewais chwi â deifiad ac â llwydni ac â chenllysg,
> yn holl waith eich dwylo,
> eto ni ddychwelasoch ataf,
> Medd Iafe.
>
> Meddyliwch, atolwg, o'r dydd hwn ac ymlaen. O'r pedwerydd ar hugain o'r nawfed mis, sef o'r dydd y sylfaenwyd teml Iafe, meddyliwch. ' Y mae'r had eto yn yr ysgubor ; a'r winwydden hefyd a'r ffigysbren a'r pomgranadbren a'r pren olew, ni ffrwythasant. O'r dydd hwn y bendithiaf chwi '."

Felly y cyfieithir yr adnodau gan y Parch. D. Francis Roberts, B.A., B.D. yn ei esboniad rhagorol ar y Maes Llafur hwn.

PYNCIAU YMDRAFODAETH.

1. A yw'r dyn duwiol yn sicr o lwyddiant bydol ?
2. A oes rhyw bwrpas i brofedigaethau ?

Hagai ii. 20—23.

GOBAITH Y DYFODOL. PREGETH TACHWEDD-RHAGFYR 520 C.C.

Pregethwyd hon yr un dydd a'r bregeth flaenorol. Gwel y proffwyd Serubabel yn cyflawni gobeithion ei genedl.

O ddiffyg gofod, a chan nad oedd gan y Golygydd yr hawl i ychwanegu at rif y tudalennau, bu'n rhaid cadw yn ôl fwy nag un ysgrif, y marwgofion, a nodion yr eglwysi. Gwnaethpwyd y rhifyn hwn yn rhifyn DATHLU DAU CANMLWYDD GALLTYPLACA. Gwell ydoedd cael yr ysgrifau ar yr HANES a'r NEGES gyda'i gilydd na'u gwahanu er mwyn dod a nodweddion ereill y misolyn i mewn y tro hwn. Gwell hynny na gwneud rhifyn dwbl a chodi'r pris. Cyhoeddir yr ysgrifau heb eu cwtogi.—GOLYGYDD.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.